# Rheoliadau'r Gymraeg

4 Ebrill 2018

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

> *Hoffwn i dderbyn y wybodaeth ganlynol dan ddarpariaethau'r ddeddf rhyddid gwybodaeth:*
> - *copi o bob e-bost a gohebiaeth arall, ynghyd â chopi o unrhyw atodiadau i'r e-byst hynny neu ohebiaeth honno, a dderbynioch oddi wrth Lywodraeth Cymru ers 1af Tachwedd 2017 ynghylch (a) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) a/neu (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym maes iechyd;*
> - *pwnc, dyddiad ac amser anfon, ac enw pob atodiad i, pob e-bost a gohebiaeth arall a dderbynioch oddi wrth Lywodraeth Cymru ers 1af Tachwedd 2017 ynghylch (a) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) a/neu (b) Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym maes iechyd;*

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth rydych yn gofyn amdani. Fodd bynnag, ni allwn ddatgan y wybodaeth gan ei bod wedi'u heithrio rhag ei datgan o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae dau eithriad yn gymwys, sydd, yn gryno, fel a ganlyn:

- adran 21 – gwybodaeth y gellir ei weld drwy ddulliau eraill; ac
- adran 41 – mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol.

Mae manylion llawn o'r eithriadau sydd wedi'u cymhwyso, a'r rhesymau dros eu cymhwyso, wedi'u nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn.   Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae adran 21 yn eithrio gwybodaeth rhag cael ei datgelu lle mae modd i'r ymgeisydd weld y wybodaeth drwy ddulliau eraill, e.e. pan gaiff ei chyhoeddi ar y we.

Cafodd Datganiadau Ysgrifenedig gan Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, eu hanfon at staff Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, ond maent hefyd wedi'u cyhoeddi ar dudalennau Datganiadau'r Cabinet at wefan Llywodraeth Cymru.

Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

**Adran 41 Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae adran yn eithrio gwybodaeth rhag cael ei datgelu pan fyddai rhyddhau'r wybodaeth honno yn torri hyder. Mae'n nodi:

> "[i]nformation is exempt information if—
>
> (a) it was obtained by the public authority from any other person (including another public authority), and
>
> (b) the disclosure of the information to the public (otherwise than under this Act) by the public authority holding it would constitute a breach of confidence actionable by that or any other person…"

Mae'r eithriad hwn yn cymhwyso'r hawl i gael mynediad o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gyfeirio at weithredu'r gyfraith gyffredin ar gyfer 'torri hyder'. Yn ôl y weithred honno, os oes gan berson sy'n dal gwybodaeth ddyletswydd i gadw'r wybodaeth honno'n gyfrinachol ('dyletswydd o hyder'), bydd yn torri hyder os yw'r person hwnnw'n datgelu'r wybodaeth heb awdurdod, sy'n cynnwys datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Gall dyletswydd hyder godi oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth ei hun neu yr amgylchiadau dros gael y wybodaeth. Cafodd peth o'r wybodaeth a gedwir ei darparu yn gyfrinachol gan drydydd parti allanol.

Mae telerau'r eithriad hwn yn golygu bod angen penderfynu a fyddai amddiffyn budd y cyhoedd yn torri hyder. Rwyf wedi gwneud hynny ac yn o'r farn y dylai budd y cyhoedd o ran cynnal cyfrinachedd drechu. Roedd fy ystyriaeth yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- mae yna fudd y cyhoedd o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn dryloyw, atebol ac yn agored i gael eu craffu; a

- fodd bynnag, byddai datgelu yn tanseilio'r ymddiriedaeth rhwng Comisiwn y Cynulliad a'r trydydd partïon hynny a ddarparodd y wybodaeth iddo. Mae cynnal ymddiriedaeth a chynnal llif gwybodaeth rhydd yn angenrheidiol er mwyn galluogi Comisiwn y Cynulliad i gyflawni ei ddyletswydd statudol o ddarparu'r eiddo, staff a gwasanaethau sy'n ofynnol at ddibenion y Cynulliad.